# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)02-07 (p1): 12 Gorffennaf 2007**

## "Cynnig ar gyfer ymchwiliad craffu cyntaf y Pwyllgor Cynaliadwyedd"

Yn ystod trafodaethau yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 5 Gorffennaf, codwyd y materion a ganlyn fel pynciau ar gyfer cynnal ymchwiliadau craffu iddynt:

Newid yn yr hinsawdd yn cynnwys polisi ynni, gostwng gollyngiadau carbon a thechnoleg ynni morol, a'u cysylltu â TAN 8;
Cynllunio - adolygiadau o ddeddfwriaeth cynllunio sylfaenol a TAN 8;
Coetiroedd yng Nghymru - perthynas â'r Comisiwn Coedwigaeth a'i effeithiau ar newid yn yr hinsawdd;
Gwastraff ac ailgylchu;
Perygl llifogydd - amddiffynfeydd arfordirol a pherygl o lifogydd mewndirol.

Nododd yr Aelodau eu bod am ymchwilio i'r materion yn ymwneud â gostwng gollyngiadau carbon yng Nghymru fel eu hymchwiliad craffu cyntaf. Bydd ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau'n cyflwyno papur yn ystod cyfarfod cyntaf tymor yr hydref gan awgrymu amserau posibl ar gyfer adolygu'r holl faterion a godwyd. Mae Llywodraeth y DU wedi pennu targed ar gyfer gostwng gollyngiadau carbon yn y DU 20% yn is na lefelau 1990 erbyn 2010. Mae'r Mesur Newid yn yr Hinsawdd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007, yn pennu targedau sydd â grym cyfreithiol, sef gostyngiad o 26-32% erbyn 2020 a gostyngiad o 60% erbyn 2050. Yng Nghymru, mae lefel y gollyngiadau carbon deuocsid wedi codi a gostwng yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi ei bod am weld adeiladau newydd yng Nghymru yn niwtral o ran carbon erbyn 2011 ac mae wedi pennu targedau ar gyfer y lefelau o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir. Awgrymir bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar graffu ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r camau y mae'n eu cymryd i gyrraedd targed y DU o ran gollyngiadau carbon. Gall yr ymchwiliad:

Gasglu tystiolaeth gan randdeiliaid ar y camau a gymerir i gyrraedd targedau'r DU o ran gollyngiadau carbon a llwyddiant yr ymgyrch gan ddefnyddio polisïau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru;
Casglu tystiolaeth gan randdeiliaid ynghylch pa fesurau eraill y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru eu dilyn i gyrraedd targedau'r DU o ran gollyngiadau carbon gan ddefnyddio'i phwerau presennol;
Casglu tystiolaeth gan randdeiliaid ar ba bwerau eraill y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio'u cael er mwyn ei helpu i gyrraedd y targedau ar gyfer gollyngiadau;
Casglu tystiolaeth gan Weinidogion a swyddogion o weinyddiaethau eraill ynghylch targedau a'r camau a gymerir i'w cyrraedd.
Yna gall y Pwyllgor graffu ar waith y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd a chyflwyno adroddiad ac argymhellion ar gyfer y Gweinidog a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Yr amserlen ar gyfer yr ymchwiliad.

**Toriad yr haf 2004** Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i gynnal astudiaeth gwmpasu Y tîm clercio i ddrafftio cylch gwaith awgrymedig Llunio rhestr o dystion posibl **Cyfarfod cyntaf tymor yr hydref** Trafod y papur cwmpasu Trafod, ac o bosibl cytuno ar y cylch gorchwyl Trafod, ac o bosibl, cytuno ar y ddogfen ymgynghori ysgrifenedig a'r rhestr ddosbarthu **Ail gyfarfod tymor yr hydref** Sesiwn dystiolaeth bosibl i amlinellu'r sefyllfa (e.e. Jonathan Porritt, yr Ymddiriedolaeth Garbon, y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy) **Cyfarfodydd dilynol yn ystod tymor yr hydref** Tystiolaeth rhanddeiliaid - 'thema' ganolog i bob cyfarfod Creu crynodeb o brif themâu'r dystiolaeth lafar a chynnal trafodaeth arnynt Crynodeb o'r dystiolaeth ysgrifenedig a thrafodaeth arni Sesiwn dystiolaeth arall yn seiliedig ar ymgynghoriadau ysgrifenedig **Cyfarfodydd yn ystod tymor y gwanwyn** Trafod y prif themâu a materion ac ystyried a oes angen rhagor o dystiolaeth Craffu ar waith y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig ar sail y dystiolaeth a geir Cynhyrchu argymhellion ac adroddiad terfynol drafft a thrafod y rhain Cytuno ar yr argymhellion a'r adroddiad terfynol Lansio'r adroddiad a dadl arno yn y Cyfarfod Llawn (cyn toriad y Pasg).